

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn E Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

2/10/2018

**Preseanol:** Alwyn E Jones (Cadeirydd), Rhodri Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Lindsey Ellis-Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Karl Jones, Huw P Roberts

Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**1914 Croesawyd** yr aelodau a derbyniwyd ymddiheuriadau Heledd Jones ac Alwyn Roberts.

**1915 Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant mewn mater ar yr Agenda.

**1916 Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 4/9/18.

**1917 Materion y Clerc :** Derbyniwyd copi o ymateb Cyngor Gwynedd i Dafydd Elis Thomas yn holi am gysylltiad croesi rhwng Llwybr y Cei a Llwybr Tegid. Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i ddisgwyl i Barc Cenedlaethol Eryri drefnu cyfarfod pellach ar y mater ar ôl cwblhau asesiad diogelwch gwahanol opsiynau.

**1918 Cyngor Gwynedd:** Adroddodd y Cyngorydd Sir, Alan Jones Evans, fod yr arwydd electronig 20mya bellach yn ei le ac yn gweithio. Dywedodd fod swyddog o Gyngor Gwynedd wedi tynnu lluniau o broblemau parcio yn y pentref oriau cyn i ddamwain ddigwydd ar riw Pen Gwaliau. Cytunwyd i gefnogi Alan Jones Evans yn ei ymdrechion i gael asesiad llawn o broblemau parcio yn y pentref cyfan.

Tynnodd sylw at y cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol y Berwyn lle bydd cyfle i fynegi barn ar y toriadau ariannol pellach a fydd yn wynebu Cyngor Gwynedd – fel pob Cyngor Sir arall yng Nghymru.

Adroddodd ar y cyfarfod a fynychodd ar ran y Cyngor i drafod trefniadau'r Wyl Triathlon; mae'r trefnydd yn ymwybodol o'r trafferthion ac mae syniadau wedi eu gwyntyllu ar ddatrys rhai o'r problemau mwyaf.

**1919 Un Llais Cymru:** Derbyniwyd Adroddiad Huw P Roberts o gyfarfod y Pwyllgor Ardal mis Medi. Cyfeiriodd at gyflwyniad Hannah Joyce ar y cais i ddynodi ardaloedd llechi Gwynedd fel ardal Treftadaeth Byd. Roedd yn falch o gyhoeddi apwyntio Trefnydd newydd i'r Gogledd -Orllewin. Rhoddwyd cyngor i'r Cyngorau Cymuned sydd yn ystyried derbyn cyfrifoldeb dros asedau.

**1920 Materion Eiddo'r Cyngor:** Cytunwyd fod Karl Jones yn ceisio cael mwy o ddyfynbrisiau ar gyfer y prosiect uwchraddio'r toiledau, gan anelu i wneud y cais am arian grant yn y flwyddyn ariannol newydd.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn E Jones

---

**1921 Materion ariannol:** Cytunwyd i dderbyn adroddiad yr Is-Bwyllgor Cyllid 24/9/18. Nodwyd sylwadau BDO a llongyfarchwyd swyddogion y Cyngor ar eu gwaith yn paratoi ar gyfer yr arolwg.

Cytunwyd i agor Cronfa'r Cadeirydd gyda swm o £250.

**1922 Materion lleol:** Cytunodd Karl Jones a Alwyn Jones i sicrhau coeden Nadolig, a gofynnwyd i Alan Jones Evans a Alwyn Roberts gyd-weithio gyda'r ysgol i drefnu achlysur goleuo'r goeden.

**1923 Partneriaeth Penllyn:** gohiriwyd derbyn adroddiad y Cynrychiolwyr.

**1924 Gohebiaeth:**

- 1. Parc Cenedlaethol Eryri:** Trafodwyd dogfen ymgynghorol Cynllun Datblygu Parc Cenedlaethol Eryri. Cytunwyd i fynegi fod digon o dai bychain yn yr ardal ond dim cyfle i deuluoedd lleol godi eu cartrefi eu hunain a pharhau i fyw yn yr ardal.
- 2. Llywodraeth:** Cytunodd y Cadeirydd a'r Clerc i ymateb ar ran y Cyngor i ymgynghoriad ar ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu, a thir diddefnydd.
- 3. Gwynedd:**
  - a. Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd lenwi biniau halen yr ardal a'r biniau yn y pentref; mae cyllid Her Gwynedd yng nghoffrau'r Cyngor Cymuned yn galluogi gwneud hyn.
  - b. Gofynnwyd i'r Cadeirydd a'r Clerc i ymateb ar ran y Cyngor Cymuned i Ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar bwysigrwydd gwasanaethau.

*Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 6/11/18 am **7.00pm** yn yr Ysgoldy (Hyfforddiant Un Llais Cymru)*

*Amser gorffen: 8.40pm*